

# Llais Llandyrnog Voice

✉ [llandyrnognews@gmail.com](mailto:llandyrnognews@gmail.com)    🐦 [@LlaisLlandyrnog](https://twitter.com/LlaisLlandyrnog)

Hydref 2020 – Cyfrol 6 – Rhifyn 1

## Clwyd Wynne

Gyda thristwch mawr y clywyd am farwolaeth Clwyd Wynne yn ddiweddar, yn 93 oed. Bu Clwyd fyw ei holl oes yn Llandyrnog a gwnaeth gyfraniad mawr at fywyd y pentref. Dyma ychydig o'i hanes gan ei fab, Robbie:

Ganwyd Thomas Clwyd Wynne 16 Ebrill 1927 i Thomas Charles Wynne a Harriet Wynne. Fe aeth Clwyd i Ysgol Reoledig Llandyrnog ac wedyn i Ysgol Ramadeg Dinbych.

Fe aeth i weithio ym musnes y teulu, siop y Golden Lion, gyda'i dad nes iddo gael ei alw i wasanaethu gyda'r Môr-filwyr Brenhinol tua diwedd yr Ail Ryfel Byd. Roed ei uned i fod i fynd i frwydro yn erbyn y Siapaniaid ond diolch byth, ni fu'n rhaid i Clwyd fynd i Siapan gan fod y Cynghreiriaid wedi gollwng y bom atomig ac o ganlyniad, ildio fu hanes y wlad. Wedyn cafodd Clwyd ei anfon i'r Aifft yn yrrwr i'r Llyngesydd McCall, Pencadfridog y Dwyrain Canol. Fe ddaeth ar draws y Cadlywydd Montgomery, y Brenin Farouk a'r Arglwydd Mountbatten (a oedd ar ei ffordd i India fel llywodraethwr). Ond yn bwysicaf oll, cyfarfu Clwyd â'i gyfaill oes (a chyd-breswilydd o Landyrnog), Meirion Parry – "Par".

Ar ôl i'w gyfnod tramor ddod i ben, dychwelodd Clwyd i'r pentref ac i'r siop.

Yn 1956 fe briododd â Dorice Davies o Fryneglwyys a oedd yn nyrs yn Ysbyty Llangwyfan ac fe symudon nhw i Dorwyd, Sgwâr yr Eglwys, lle cafodd Robbie a Dylan eu geni. Pan fu tad Clwyd, Tom, farw fe symudodd y teulu i siop y Golden Lion. Fodd bynnag, roedd y chwedegau a'r saithdegau yn gyfnod o newid yn siop y pentref. Fe beidiodd Clwyd â gwerthu petrol a danfon nwyddau, a daeth yn isbostfeistr. Yn ddiweddarach, symudodd y



*O'r chwith: y Parch. E.O. David, Clwyd Wynne, Hefin Owen*

siop a'r swyddfa bost ar draws y ffordd, gyferbyn â'r Golden Lion.

Bu farw Dorice yn sydyn yn 1990 ar ôl cael strôc, ond parhaodd Clwyd â'r busnes gyda help Gwyneth Roberts, Bodfari ac wrth gwrs, Sylvia Evans (Pearce) o Landyrnog. Ar ôl ymddeol, dechreuodd Clwyd deithio ar nifer o fordeithiau o gwmpas y byd, yn aml gyda Par – Meirion Parry – yn gwmni iddo.

Wrth i iechyd Clwyd ddirywio, roedd yn benderfynol o aros yn y pentref. Diolch i'r gofal arbennig a gafodd gan Vale Senior Care, Dinbych; ei chwaer, Nerys, a'i nai, Tony, fe wnaed hyn yn bosibl.

Does dim llawer yn gallu dweud eu bod wedi'u geni, wedi byw ac wedi dod i derfyn eu hoes mewn pentref yr oedden nhw yn meddwl cymaint ohono.



# Pytiau newyddion y pentre

**Llongyfarchiadau** i John ac Olwen Rowlands, Maes y Wern, a fydd yn dathlu eu pen blwydd priodas aur ar 17 Hydref. Rhaid bod Olwen yn hynod o falch wrth edrych ar luniau o ddiwrnod eu priodas, gan ei bod wedi gwneud ei ffrog ei hun.



**Llongyfarchiadau** mawr hefyd i Danny a Vicky Owen, Craiglea, a briodwyd yn ddiweddar yn Eglwys St Tyrnog.

**Apêl am gyfraniadau:** Bydd Paige Tynan yn dechrau ar ei doethuriaeth mewn Gwyddoniaeth Fforensig yn fuan a dymunwn yn dda iddi. Gan fod ychydig iawn o arian ar gael ar gyfer y pwnc yma, mae Paige yn gorfod talu ei hun am eu hastudiaethau.

Mae Paige wedi creu tudalen i godi arian: [crowd.science/campaigns/developing-and-reviewing-a-more-reliable-system-for-the-recording-of-cadaver-decomposition](https://www.crowdscience.com/campaigns/developing-and-reviewing-a-more-reliable-system-for-the-recording-of-cadaver-decomposition) a byddai'n falch iawn petaech yn cyfrannu.

## Un drws yn cau...

Roedd hi'n drist clywed na fydd Hilary Wilcox yn agor y White Horse eto yn sgil y cyfyngiadau oherwydd Covid-19 ar fusnesau o'r fath. Ond rydym yn gwerthfawrogi gwaith caled ac ymroddiad yr holl staff yno.

## Ac un arall yn agor...

Yn y cyfamser mae Merfyn Parry wedi penderfynu ailagor y Golden Lion gyda help Mark Roberts. Mae hyn yn newyddion da i'r pentre ac rydym yn gobeithio'n fawr y bydd hon yn bartneriaeth lwyddiannus.



Mae grawnwin Solaris o winllan leol y Dyffryn ar eu ffordd i'w droi'n win! Mae'r cynhaeaf cyntaf o 60kg o'r grawnwin wedi'u hanfon i'w prosesu. Edrychwn ymlaen at flasau'r cynnyrch terfynol!



**Diolch o galon unwaith eto i bawb sydd cyfrannu at y rhifyn hwn.**

# Rysâit y mis – Cacen fwd Mississippi

Pwdin siocled hawdd ac yn cael croeso bob tro!

Angen tin 25cm diameter a 3cm o ddyfnder wedi ei leinio gyda ffoil.

## Cynhwysion

Cymysgedd y gwaelod:

80g bisgedi digestif

80g bisgedi sinsir

70g menyn

Llenwad:

200g *marshmallows* pinc a gwyn

300ml hufen dwbl

45ml llefrith

Hanner llwy de sinamon

50ml Tia Maria

200g siocled tywyll

2 lwy fwrdd o goffi cryf (*instant*)

## Dull

1. I wneud y gwaelod, toddi'r menyn, yna malu'r bisgedi yn fân a'u hychwanegu at y menyn a'i daenu ar waelod y tun. Pwyso'r cymysgedd i lawr efo cefn llwy a'i roi yn yr oergell i galedu.
2. Rhowch y *marshmallows*, y llefrith a'r sinamon mewn sosban fechan a'i doddi gan ei droi yn barhaol. Gadewch iddo oeri ychydig.
3. Toddwch y siocled mewn powlen dros sosban o ddŵr yn mudferwi a gadewch iddo oeri ychydig.
4. Chwipiwch yr hufen nes ei fod yn cadw ei siâp (ddim yn rhy stiff).
5. Ychwanegwch y Tia Maria a'r coffi at y cymysgedd *marshmallow*.
6. Cymysgwch y siocled a'r hufen i mewn i'r *marshmallows* a'i dywallt dros gymysgedd y gwaelod a'i roi yn yr oergell am ychydig oriau.
7. Cyn ei weini gratiwch siocled yn fân ar y top.

*Iona Davies*



**4 Kinmel Terrace, Llandyrnog**

***Locally bred and home-killed meat***

**Hours of business:**

**Monday — closed**

**Tuesday-Friday 8am–5:30pm**

**Saturday 8am–2pm**

***Deliveries daily throughout the area***

## **Aelodau'r Pwyllgor:**

Ruth Griffith (cadeirydd), Ivan Butler (trysorydd a chysodydd), Anwen Davies (cysodydd), Gwen Butler, Jack Crowther, Bryn Davies (tanysgrifiadau a hysbysebion), Ann ac Iestyn Jones-Evans (cyfieithwyr), Anne Rowley-Williams, Rhian Jones, Margaret a Rod Williams, Sian Gwyn-Ifan (cyfieithydd).  
***Anfonwch eich newyddion a'ch erthyglau at [llandyrnognews@gmail.com](mailto:llandyrnognews@gmail.com)***

## **James Davies, A.S. Dyffryn Clwyd**

james.davies.mp@parliament.uk  
Swyddfa'r etholaeth: 01745 888920  
Swyddfa Westminster: 0207 2194606



# Gwyliau Gwalia

Beth yw'r holl ffwdan 'ma am wyliau gartre – *staycation* – Gwyliau Gwalia? Dyna rydym ni'r Daviesiaid wedi bod yn ei wneud ers talwm, ers geni'r plant bron 30 o flynyddoedd yn ôl, a bod yn fanwl gywir.

Pan oedd y plant yn iau, rhaid i mi gyfadde nad oedd gen i'r amynedd i deithio dramor gyda nhw (sori Lisa, Manon ac Ifan – a Bryn) ac felly byddem yn mynd ar ein gwyliau i fannau difyr fel Torquay, Scarborough, Dyfnaint, Sir Benfro a Bro Gŵyr. Roeddem bob amser yn dewis lleoliad ar sail beth oedd yno i blant bach eu gwneud. Mae Scarborough yn lle gwych i fynd ar wyliau gyda phlant, gyda llaw, er ei bod hi braidd yn oer yno oherwydd y gwynt oer oddi ar Fôr y Gogledd.

Fe fentron ni dros y dŵr unwaith, i Tramore yn Iwerddon. Yr atynfa fawr yno oedd ffair – peth prin iawn yn Iwerddon yr adeg honno! Roedd ein fflat reit ar lan y môr – croesi'r ffordd ac roedd pwll tywod mwya'r byd yno i ni ei fwynhau. Fe ddysgon ni nad yw Iwerddon yn darparu DIM BYD O GWBL ar gyfer plant – llain o laswellt oedd 'parc' yno. Yn ffodus roedd y tywydd yn wych ac fe gawson ni wythnos fendigedig, yn mynd o draeth i draeth, yn bennaf.

Ond wrth i'r plant dyfu, dyma nhw'n dechre sôn y bydden nhw'n hoffi mynd dramor. Roedd Bryn newydd fod i Lydaw gyda Chôr Rhuthun a chyhoeddodd un noson y byddai'n hoffi mynd â ni yno fel teulu am wylie yn y garafán.

Bant â ni i Lydaw, haf 2004. Rwy'n cofio clywed Hywel Gwynfryn ar y radio un tro yn dweud iddo gael wythnos o wyliau yn Llydaw, a phythefnos o law. Felly roedd hi i ni hefyd. Ydych chi'n cofio pentre Boscastle, Cernyw yn diodde'n enbyd oherwydd llifogydd? – dyna'r glaw gawson ni hefyd. Yn rhyfedd ddigon, chlywson ni ddim sôn gan y plant am fynd dramor wedyn.

Y flwyddyn ganlynol, aethon ni i Aberllydan – *Broadhaven* – yn Sir Benfro. Gwylie hyfryd – tŷ modern, glân a thaclus, o fewn pum munud o gerdded i lan y môr, a thywydd braf. Ac am y blynyddoedd wedyn i Aberllydan, Dinbych-y-Pysgod, a'r Mwmbwls y byddem yn troi trwyn y car bob haf, tan y llynedd. Fe gawsom ambell gyfarfyddiad annisgwyl yn Ninbych-y-Pysgod – Bryn wedi gweld y Parch. John Owen, Rhuthun yn sbecian ar gêm rygbi ar y teledu drwy ffenest canolfan y Clwb Rygbi yn y dre (adeg rhyw gwpan y byd neu'i gilydd, mae'n siŵr), a chwrdd â Jan Roberts, Pwllglas, dro arall, ar y llwybr i draeth Barafundle.

Doedd dim llawer o Gymraeg i'w chlywed yn Aberllydan, ond mae'n amlwg bod Dinbych-y-Pysgod yn cael llawer o gefnogaeth gan Gymry.

Ar ôl dod yn gyfarwydd â phob twll a chornel o'r pen yna o Sir Benfro, dyma fentro ychydig i'r dwyrain, a mynd i'r Mwmbwls. Mae'r ffaith ei fod ar waelod Cwmtawe (a minne'n dod o ben ucha'r cwm) yn siŵr o fod

yn rhannol gyfrifol am fy nenu yno. Am le gwych i gael gwylie – y ddinas, cefn gwlad a glan môr gyda'i gilydd. Mae'n lle hynod brysur – fe glywch chi sôn yn

*Traeth Ynys Bŷr, ger Dinbych-y-Pysgod (llun oddi ar fy nghamera, nid cerdyn post!)*



# Gwyliau Gwalia: parhad

aml am draffig trwm ar Heol Ystumllwyniarth, sy'n mynd i mewn i'r dre, ar adroddiadau trafniadaeth Radio Cymru. Felly roedd hi'n braf gallu cerdded i'r dre, heb boeni am barcio, a mwynhau mynd o gwmpas y siopau bach, annibynnol. Er, erbyn hyn mae M&S wedi cyrraedd yno a sawl siop gadwyn arall a'r trigolion yn cwyno am y newidiadau.

Ond beth am y tywydd wrth aros yng Nghymru am wyliau, rwy'n eich clywed chi'n gofyn? Chawson ni fyth y fath law ag y cawson ni yn Llydaw eto a dwi ddim yn cofio tywydd gwael iawn o gwbl. Ond gan ein bod mewn tai cyffyrddus, doedd dim llawer o bwys os oedd hi'n bwrw glaw – cyfle i bawb ymlacio (er bod traed Bryn yn cosi, wrth reswm). Be 'di'r dywediad? – does mo'r fath beth â thywydd gwael, dim ond y dillad anghywir. Felly, pacio dillad cynnes, cotiau glaw, eli haul, a dyna ni'n barod ar gyfer pob peth y gallai Derek Brockway a'i debyg ei ddarogan.

Ac mae sawl mantais i gymryd gwylie yng Nghymru – does dim angen bod mewn maes awyr oriau ymlaen llaw, mae llond tanc car o danwydd dipyn yn rhatach o lawer na thocynnau awyren i deulu o bump, does dim angen cofio am basports a thocynnau a phethe eraill pwysig felly, cewch deithio'n hamddenol heb orfod rhuthro i fod yn rhywle ar adeg benodol, rydych chi'n cyfrannu at economi leol, ac ati, ac ati. Mae siarad Cymraeg yn arbed arian i chi weithiau – un tro, doedd dim rhaid i ni dalu yn un o feysydd parcio'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol oherwydd bod y dyn ifanc oedd wrth y fynedfa'n sylweddoli ein bod ni'n Gymry!

Y llynedd, dyma ni'n mentro i ardal y llynnoedd yn Lloegr am newid, ym mis Mehefin. Rydyn ni'n tueddu i feddwl ei bod hi'n bwrw glaw'n aml yno, ond roedden ni'n hynod o lwcus gyda'r tywydd. Fe gafodd Dyffryn Clwyd law ofnadwy ddechre'r wythnos honno, ond roedden ni o dan haul ac awyr las. Am ychydig ddyddie, beth bynnag. Fe drodd y tywydd, ond fe gadwodd hi'n eitha sych.

Fe benderfynais nad oeddwn i am fynd yn

ôl yno – heblaw am y llynnoedd, mae hi'n reit debyg i'n hardal ni (nid bod hynny'n ddrwg i gyd, wrth gwrs). A'r peth mwya – roeddwn i'n methu glan y môr a'r pleser o wyllo'r tonnau. Does dim byd cystal â chael paned neu hufen iâ ar lan y môr ym mwyty Verdi's yn y Mwmbwls! Gobeithio wir y ca' i fynd yn ôl yno cyn bo hir.

Anwen Davies



Paned a chacen hyfryd yn Verdi's, y Mwmbwls



## Prompt Travel

### Taxi & Private Hire

---

**4, 8 & 16-seat vehicles**  
**24 hrs 7 days a week**



Incorporating Vale Private Hire

**01824 790485**  
**07974 862027**

---

## Teithiau Prydlon



### Tacsi a Hurio Preifat

# Gair gan y Rheithor

Ar ddechrau'r cyfnod clo, fe agorais i ffeil coronafeirws; roeddwn i o'r farn y byddai'n ddiddorol cofnodi pob peth y byddwn i'n anfon allan yn ystod y cyfnod. Er nad yw'r deunydd o arwyddocâd arbennig ar hyn o bryd, mewn blynyddoedd i ddod fe fydd yn rhan ddiddorol o hanes yr Eglwys yn 2020. Mae'n cynnwys llythyrau gan yr Esgob, y newyddion diweddaraf gen i, darlenniadau wythnosol y Beibl, a chyfarwyddiadau a hysbysiadau am goronafeirws gan yr Eglwys yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf ohono ar gyfrifiadur, ond mae'n bosib difrodi ffeiliau cyfrifiadurol ac ymhen hanner can mlynedd mae'n bur debygol y bydd y dechnoleg wedi newid yn llwyr a bydd hi'n amhosib darllen dogfennau ar Windows 10.

Rydym yn ffodus iawn bod gennym Gymdeithas Hanes Lleol yn Llandyrnog a Llangwyfan sy'n cofnodi digwyddiadau'r gorffennol. Mae'r rhain i gyd yn rhoi darlun ardderchog o'n bywydau yn y gorffennol. Mae cilwg yn ôl yn ddiddorol bob amser ac yn fuddiol yn aml. Rydym yn dysgu gwersi, fe gofiwn adegau da ac adegau heriol, a sylweddolwn fod yr hyn rydym ni'n ei wynebu heddiw wedi'i wynebu mewn amgylchiadau gwahanol yn y gorffennol. Waeth pa mor anodd yw hi arnom ar hyn o bryd, o leiaf rydym yn gallu bod gartref, mae gennym wres a bwyd, ac mae gennym foethau na fyddai'n cyndeidiau erioed wedi breuddwydion amdanyn nhw.

Wrth wyllo'r newyddion ar y teledu, fe welwn nad yw hi'n dda – mae nifer yr achosion o salwch oherwydd y firws yn codi eto ac mae'r dyfodol yn ansicr. Ond bydd cariad yn gorchfygu bob tro. Hyd yn oed yn yr adegau ansicr hyn, bydd pobl yn priodi, yn magu teulu, ac yn paratoi ar gyfer dyddiau gwell – dyna ydy cariad. Beth bynnag ddaw yn y misoedd nesaf, fe barhawn i chwilio am ryw beth cadarnhaol ym mhob sefyllfa. Fe fydd y rheini sydd yn ffyddiog bod dyddiau gwell i ddod yn ein plith bob amser...

Roedd pentref heb gael glaw ers sawl mis. Roedd y tir a'r afonydd yn sych a'r angen am

law yn enbyd. Penderfynodd y bobl ddod at ei gilydd i weddio am law yr oedd taer ei angen. Roedd hi'n ddiwrnod heulog ac fe ddaeth y bobl yn eu dillad haf a sandalau – roedd hi'n sych, wedi'r cyfan. Dim ond un ddaeth yno mewn sgidiau glaw ac ymbarél. Dyna ffydd i chi.

Rydym yn ffyddiog fod dyddiau gwell i ddod. Diolch am bawb sy'n gweithio i gael hyd i frechiad newydd, pawb sy'n gofalu am eraill a gweddiwn dros ysgolion wrth i'r flwyddyn newydd gael ei thraed dani. Roedd bywyd wedi dechrau agor unwaith eto ac roeddem yn teimlo'n fwy cadarnhaol, ond mae'r wythnosau diweddar wedi dangos na allwn fod yn hunanfodlon. Mae'r firws yma o hyd ac mae angen i ni fod yn wyladwrus o hyd.

Mae'n debygol y bydd fy ffeil coronafeirws yn dal i dyfu dros y misoedd nesaf. I ddechrau, ysgrifennais Mawrth/Ebrill ar y tu blaen, wedyn fe ychwanegais Mai/Mehefin/ Gorffennaf/Awst, ac erbyn hyn, Medi/Hydref. Ond fe ddaliwn i obeithio wrth edrych tuag at ddyddiau gwell. Boed i ni fod yn bobl 'sgidiau glaw ac ymbarél'. Pobl â ffydd.

*'Dyma'r dydd y gweithredodd yr Arglwydd; gorfoleddwn a llawenhawn ynddo.'*

*Salm 118:24*

Gyda phob bendith,  
*Val Rowlands*

## Cyngor Sir Ddinbych

**Merfyn Parry**

**Manylion cyswllt:**

**Ffôn symudol: 07836 208446**

**E-bost: [merfyn.parry@denbighshire.gov.uk](mailto:merfyn.parry@denbighshire.gov.uk)**

**Neu gadewch neges ar Facebook**





# Nodiadau o Blas Ashpool



(Llun: Richard Hughes)

On’ d ydyn ni wedi cael boreau a machludau gwych yn ddiweddar? Rwyf wrth fy modd gyda’r adeg hon o’r flwyddyn pan mae’r dyffryn i gyd wedi’i orchuddio gan darth ysgafn gyda’r wawr ac mae’n edrych yn debyg iawn o bowlen anferth o lefrith. Yn gynnar y bore ’ma, wrth i mi ollwng cathod diog allan a helwyr y nos i mewn, roedd yr aroglau o gae meillion sydd newydd ei dorri yn ddigon i’ch meddwi. Rywsut, mae’r dyddiau hyn sy’n byrhau yn rhoi gwledd i’n synhwyrâu – o liwiau’r dail yn newid, arogleuon y tir, patrymau gwe pry cop ar y glaswellt, i hwrtian cysurlon y tylluanod wrth iddi nosi. Gwerthfawrogwch y rhain gymaint ag sy’n bosib – bydd yn falm i’r enaid dros fisoedd y gaeaf.

Ychydig ddyddiau’n ôl, ar un o’r diwrnodau braf hynny ym mis Medi, roeddwn i’n ddigon ffodus o gael mynd i Ynys Enlli. Pam ar y ddaear nad ydw i erioed wedi bod yno?! Mae’n lle hudolus. Wrth gwrs, roeddwn i’n gwybod iddo fod yn gyrchfan pererinion ers canrifoedd ac yn y gorffennol yn cynnal poblogaeth fwy niferus o lawer na’r ychydig sy’n byw arni heddiw. O’r eiliad i mi gamu oddi ar y cwch, roedd y tawelwch hollol o’ nghwmpas i yn fwy swynol. Roedd cân yr adar, mor glir oherwydd diffyg sŵn traffig, yn anhygoel. Yn y bae, roedd sain y morloi, wrth iddyn nhw fwynhau haul hwyr yr haf, bron yn annaeorol. Y tro diwethaf i mi glywed sain morloi oedd ar Holy Island yn Northumberland, rai blynyddoedd yn ôl. Yno hefyd roeddech yn gallu teimlo rhywbeth arbennig iawn, tawelwch dwys iawn. Mae Ynys

Enlli wedi denu nifer o ymwelwyr dros fisoedd yr haf, ac eto mae’n llwyddo i gynnal y teimlad o gamu’n ôl mewn amser. Diwrnod perffaith.

Gartref, rwy wedi bod yn brysur yn paratoi’r ardd ar gyfer y gaeaf. Yn ambell fan mae pethau’n reit obeithiol, mewn eraill dydyn nhw ddim cystal. Yn ddiamau, rhaid ailwampio’r ardd i gyd dros y gaeaf. Wrth i amser fynd yn ei flaen, rwy’n gweld synnwyr mewn lleihau nifer y borderi sydd yn yr ardd a gofalu bod y rhai a fydd yn weddill yn haws eu trin. Fodd bynnag, dydy’r syniad hwn ddim yn fy rhwystro rhag breuddwydio! Mae’r catalogau bylbiau a hadau ar y bwrdd ac mae ychydig o blanhigion rwy wedi’u harchebu ar eu ffordd i Landyrnog.

Efallai y cawn ni ychydig ragor o ddyddiau heulog, felly rwy’n gobeithio y bydd yn tywynnu arnoch chi ac yn ein tywys, yn dyner, i’r misoedd oerach, tywyllach sydd o’n blaenau.

Tan y tro nesa, mwynhewch y garddio.

*Fiona Bell*

**hg**web  
designs

rydym ni’n creu... we create....

**gwefannau - websites!**

[www.hgwebdesigns.co.uk](http://www.hgwebdesigns.co.uk)

01678 520882

07984 511164

Gwefannau proffesiynol, dwyieithog ar gyfer busnesau, sefydliadau ac ysgolion lleol.

Affordable, bilingual and professional websites for local businesses, organisations and schools.

**[hannah@hgwebdesigns.co.uk](mailto:hannah@hgwebdesigns.co.uk)**

# Beth ydy'r gwahaniaeth rhwng annwyd a'r fflw?

Gan roi COVID-19 i'r naill ochr am y tro, wrth i'r gaea ddod ar ein gwartha, mae annwyd a fflw yn mynd i ddod yn amlach. Dyma ganllaw hwylus i'ch helpu i benderfynu a oes annwyd neu fflw arnoch:

	<b>Annwyd</b>	<b>Fflw</b>
symptomau'n dechrau	yn raddol	yn sydyn ac yn gwaethygu'n gyflym
dolur gwddw tymheredd	teimlad o grafu yn codi ychydig	yn boenus iawn uchel – hyd at 104 °F/ 40 °C
cur pen poenau	ychydig ychydig, fel arfer yn y coesau	difrifol yn sydyn, dros y corff i gyd
pesychu/tisian	y trwyn wedi'i flocio	pesychu'n anarferol, tisian yn digwydd yn anaml
hyd y salwch	yn gwella'n gyflym	yn sâl am wythnos neu bythefnos

Fel arfer, rydyn ni'n dal annwyd 200 o weithiau yn ystod ein hoes – sy'n golygu rhwng dwy a pedair blynedd o disian a thagu! Pobl ifanc, 15–24 oed, sydd fwyaf tebygol o fynd i'r gwely gyda'u symptomau; mae pobl dros 65 oed yn gwneud dim ond dal ati.

Mae cawl cyw iâr, sy'n llawn protein a fitaminau, yn helpu i liniaru'r symptomau. Ond bydd unrhyw ddiod boeth yn codi'r tymheredd yn y trwyn a'r geg ac felly'n helpu i ladd feirysau, sy'n hoffi tymereddau cyson.

## Rhag ofn bod angen eich atgoffa, prif symptomau coronafeirws (COVID-19) yw:

- ♦ **tymheredd uchel – mae eich brest neu eich cefn yn teimlo'n boeth pan fyddwch yn ei gyffwrdd (does dim angen mesur eich tymheredd)**
- ♦ **peswch newydd, parhaus – mae hyn yn golygu pesychu cryn dipyn am fwy nag awr, neu dri phwl neu ragor o besychu mewn 24 awr (os ydych yn pesychu fel arfer, gallai fod yn waeth)**
- ♦ **methu blasu nag arogl dim byd neu bethau'n blasu neu'n arogl'n wahanol.**

Cyn i chi ddal dim byd y gaeaf yma, gwnewch gymaint o ymarfer corff ag sy'n bosib, y math sy'n gwneud i chi anadlu'n ddwfn. Mae'n ysgogi'r system lymffatig, sef 'priffordd' y corff i gludo celloedd imiwnedd. Mae pob dim yn help!

**A. JONES CARPET FITTING & CLEANING**  
Carpet Fitted/Re-fitted/Repaired & Supplied  
Underlay and Accessories Supplied  
[www.carpetfitter-ajones.co.uk](http://www.carpetfitter-ajones.co.uk)

**Pomegranate Floor North Wales**  
Domestic/Commercial Dry Carpet Cleaning  
[www.pomegranatefloornorthwales.com](http://www.pomegranatefloornorthwales.com)

Freephone: 0800 180 4803 Mobile: 07900 907253



# Cilwg yn ôl – 21 Hydref 1966

Trychineb a gyffyrddodd â phobl ledled y byd oedd mynydd o law dyn yn llithro'n ddistaw dros ysgol. Tan 21 Hydref, 1966, yr ysgol oedd calon pentref Aberfan yn Ne Cymru, pentref nad oedd fawr neb wedi clywed amdano.

Fe gefais y newyddion gyntaf gan ffrind a oedd wedi clywed adroddiad newyddion brys tua 11 y bore yn sôn am drychineb yn Aberfan lle'r oedd ysgol ar lwybr tirlithriad anferth o wastraff glo.

Roedd yn rhaid i mi ddychwelyd i gartref fy mhentyndod lle'r oeddwn i wedi byw nes i mi ddod i ddysgu yng Ngogledd Cymru. Roeddwn i'n adnabod y pentref yn dda. Roedd fy rhieni'n dal i fyw yn Aberfan. Yn yr ysgol honno y cefais fy addysg a newydd ymddeol, ddwy flynedd ynghynt, oedd fy mam o fod yn athrawes ynddi.

Wrth wrando ar y darllediadau canlynol ar y radio, roeddwn i'n meddwl bod y wybodaeth yn anghywir. Does bosib mai'r ysgol hyn a oedd yng nghysgod y tip a oedd wedi'i gorchuddio. Roeddwn i'n anghywir. Roedd y pyramid o wastraff glo wedi llithro'n dawel fel neidr i boeri'i wenwyn marwol dros Ysgol Gynradd Pantglas.

Fe gychwynnon ni yn y car i Dde Cymru ar y prynhawn dydd Gwener, ac wrth i signal y radio fethu yng nghanol mynyddoedd canolbarth Cymru, roeddem yn methu clywed yr adroddiadau diweddaraf. Nid oeddem ni ond yn gallu dychmygu'r gymuned ddrylliedig.

Yn y diwedd, fe gyrhaeddom ni Merthyr Vale, y pentref ar lan yr Afon Taf sydd gyferbyn ag Aberfan. Mae'r lofa ym Merthyr Vale ac mae dwy bont yn cysylltu'r ddwy gymuned. Roedd gan y naill bentre a'r llall ei ysgol ei hun, ond roedd y lofa, y capeli a'r eglwysi'n lleoedd cyffredin lle byddai'r bobl leol yn gweithio ac yn cymdeithasu.

Nid oedd yr un car yn cael croesi'r afon i mewn i Aberfan ac felly gadawyd ein car mewn cilfan. Edrychais ar draws y dyffryn. Roedd hi tua 7 o'r gloch y nos ac roedd hi'n rhyfedd o gynnes. Roedd Aberfan yn dywyll heblaw am

oleuadau cryf a oedd wedi'u codi dros safle'r ysgol. Roedd cymylau o stêm yn gorchuddio'r ardal, stêm a godai o'r ddaear wrth i wres y goleuadau gynhesu'r glo gwastraff gwlyb.

Cyn bo hir, aethom gyda fy rhieni at yr ysgol. Roedd un plismon ar ben ei hunan bach wrth gatiâu'r ysgol. Dim ond y rheini a oedd wedi dod i geisio achub y plant a oedd yn cael mynd trwyddyn nhw, ac roedd yn atal y rheini a oedd wedi dod i wneud fawr ddim byd mwy na syllu. Roedd yn anodd iddo wrth iddo geisio cysuro'r rhieni syn a oedd yn methu dirnad maint y trychineb.

Caeodd drysau ambiwlans gerllaw'n glep, ac i ffwrdd â'r cerbyd yn ddistaw. Daeth rhagor o ambiwlansys, aros, ac wedyn mynd oddi yno'n ddistaw. Erbyn hyn roedd hi'n oeri ac roedd anadl y bobl a safai ger yr ysgol yn codi fel aroglarth, yn anfon ein gweddïau i'r nefoedd. Roedd pawb yn fud ac yn syfrdan.

Dyna'r tro cyntaf i mi glywed Mudandod yn siarad.

Gwyliais wrth i lowyr, â dagrau ar eu bochau, ddefnyddio'u dwylo i gyrraedd y cyrff a oedd wedi'u claddu. Chysgodd neb y noson honno. Ddwedodd neb yr un gair y noson honno. Roeddem fel petai'n rhan o sioe heb eiriau. Roedd pawb yn gwybod beth oedd ar feddwl y llall neu yn ei weddïau, felly nid oedd angen geiriau. Safem fel gwarchodwyr nes i olau cynta'r wawr dod â'n gwylfa i ben.

Roedd fy nghalon yn torri dros bentref fy ngeni, am y rhieni yn eu galar, am yr euog-rwydd y byddai'r glowyr diniwed yn ei deimlo, a'u diwydiant yn gyfrifol am greu'r tipiau glo.

Dros y dyddiau nesaf bûm i gyda merched eraill yng Nghapel Smyrna yn darparu lluniaeth i'r bobl a oedd wedi dod o bobman yn y wlad i helpu ar ôl clywed y newyddion am y trychineb. Cyrhaeddodd dynion tân, ar ôl dod i ddiwedd eu shifftiau cyrhaeddodd plismyn, a daeth dieithriaid a oedd yn teimlo'r angen i helpu. Roedd ffenestri Capel Smyrna yn gul ac ychydig iawn o olau naturiol oedd yno. Roeddem wedi'n gwasgu at ein gilydd ond

## Cilwg yn ôl – 21 Hydref 1966: parhad

siaradai neb. Byddai dieithriaid yn edrych i fyw llygaid ei gilydd ac wedyn edrych i'r naill ochr, yn methu mynegi eu meddyliau.

Roedd yr awyrgylch yn y ffreutur a drefnwyd yn frysiog yn dawel. Darparwyd bara a llenwadau'r brechdanau gan bobyddion a siopwyr hael, felly treuliodd y dyddiau'n gwneud brechdanau'n dawel i'r achubwyr. Pan fyddai'r te yn cael ei arllwys, yr unig eiriau a glywsech oedd 'Llefrith?', 'Siwgr?'. Byddai'r seddi pren anghyfforddus yn welyau i'r achubwyr lluddedig a fyddai'n cysgu am ychydig oriau cyn dychwelyd i helpu yn yr ysgol ddrylliedig.

Ar ddiwedd y dydd, byddem yn gadael ein capel ni a grŵp newydd o ferched yn cyrraedd i baratoi lluniaeth drwy'r nos.

Capel arall yn Aberfan, Bethania, oedd y marwdy. Roedd y plant wedi'u gosod yn dyner ar sedd yr un nes byddai'r rhieni amyneddgar a thawel yn cael eu galw yn eu tro i adnabod eu plentyn, weithiau eu plant.

Aethom yn ôl y bore wedyn i Smyrna i ddechrau shifft arall. Wrth i ni gerdded ar hyd y stryd fawr yn Aberfan, roedd hi'n amhosib adnabod y glowyr a'r achubwyr. Roedd hi fel petaen nhw i gyd yn dod o'r pwll ar ôl eu gwaith oherwydd roedd eu hwynebau'n welw o dan y llwch glo. Roedd eu dwylo'n goch ac yn friwiau i gyd a'u llygaid yn drist, yn methu dirnad enbydrwydd yr hyn roedden nhw wedi'i weld.

Yn sydyn, diflannodd golau dydd a dychwelodd y tywyllwch, ym mhob ystyr y gair. Yn fy nghartref, cysurais fy mam a oedd wedi cael gwybod fod pob un o'r dosbarth olaf roedd hi wedi'i ddysgu cyn iddi ymdeol wedi marw. Chwalwyd ei bywyd hi a bywyd ei chyd-weithwyr yn deilchion ac ni fyddai byth modd ei drwsio. Ddwy flynedd yn ddiweddarach, fe'i rhoddwyd i orffwys ar ochr y bryn uwchben yr ardd goffa, yn dal i gadw llygad ar ei phlant.

*Wendy Grey-Lloyd*



*Gardd goffa Aberfan*



# Taith i Bermiwda

Wrth i'm lliw haul ddiplannu'n raddol (wel, y mymryn oedd gen i i ddechrau!), a'r gwynt oer chwythu tu allan, dwi'n meddwl yn ôl ar fy ymweliad â Bermiwda yn ddiweddar.

Ynys fechan folcanig ym Môr Iwerydd ydi Bermiwda sydd yn bell iawn o ynysoedd eraill y Caribî. Yn wir, mae'n agosach at Benrhyn Hateras Gogledd Carolina, sydd tua 600 milltir i ffwrdd. Rydw i'n sôn am hyn gan fod llawer iawn o bobl yn cymysgu rhwng Bermiwda a'r Bahamas. Mae ganddi draethau gwyn trofannol ac mae rhai traethau hyd yn oed yn lliw pinc. Mae'r môr yn gynnes ac yn eich denu chi, ac mae canol gaeaf yno hyd yn oed fel diwrnod o haf arferol yng Nghymru. Fel arfer, mi welwch longau mordaith ar hyd y glannau, ond y tro yma, dim ond llongau pleser y trigolion oedd yno. Gan fod llai o gychod, roedd llawer iawn mwy o grwbannod y môr i'w gweld. Mi wnes i sawl ymdrech lew i gael llun ohonyn nhw, ond roedden nhw'n symud yn rhy gyflym i mi ac yn diflannu o dan y tonnau!



*Cychod pleser y trigolion lleol*

Beth bynnag, doeddwn i ddim yma i weld crwbannod y môr ond i weld y teulu. Mae James, y mab, a'i bartner Sally, yr wŷr Leo 4



*Pwll bach diogel yn Jobson's cove*

oed a'r wyres Frankie 2 oed yn byw yma – oed hyfryd i Nana fwynhau efo'r wŷr ac wyres! Yn yr oed yma, maen nhw'n dal i feddwl bod eu Nana'n hwyl ac yn ffrind chwarae gwych! Erbyn hyn, mae'r ddau'n dechrau nofio ond rhaid bod yn wylidwrus iawn pan maen nhw yn y môr – yn enwedig Frankie, sy'n meddwl mai rhywbeth rydych chi'n neud o dan y dŵr ydi nofio! Felly, rydan ni'n cerdded heibio'r traeth â'r tonnau gwynion gwyllt, a phlant yn chwarae ar estyll syrffio, a mynd rownd y gornel i draeth bychan cysgodol, lle mae'r tonnau'n fwy tawel – pwll bach hyfryd, sy'n ddelfrydol i Nana!

Rhwng y creigiau, mae digon o grancod bychain a physgod parot yn nofio wrth ein traed. Dw i'n meddwl eu bod nhw'n cael eu galw'n bysgod parot am eu bod yn lliwgar iawn, fel eu henw wrth gwrs. Y tro hwn gwelais bysgod rhingyll bach sy â streipiau du a gwyn. Ymhen dim, roedd hi'n amser troi'n ôl i'r traeth ac adeiladu cestyll tywod. Yr unig beth sy ar goll ydi cerrig bychain a chregyn ar y traeth i'w haddurno! Mae 'na rai traethau yma sy'n nodedig am wydrau môr ond chewch chi ddim eu casglu – ond aethom ni ddim i weld y traethau hynny y tro 'ma.



# Taith i Bermiwda: parhad



*Frankie a Leo yn mwynhau ymweliad â'r acwariwm*

Ar y dechrau, doedd neb yn cael teithio mwy na hanner milltir oddi cartref ac roedd cyrffiw am saith o'r gloch bob nos. Roedd profion Cofid manwl bedair gwaith i rai oedd yn ymweld â'r ynys – wrth gyrraedd, y trydydd diwrnod, yr wythfed diwrnod a'r pedwerydd diwrnod ar ddeg. I ddweud y gwir, roeddwn i wedi gorfod cael prawf, a hwnnw'n negatif, dim ond i gael mynd ar yr awyren. Ar ôl y pythefnos cyntaf, roedd cyfle i gymdeithasu 'chydig mwy. Aeth ffrindiau â ni ar eu cwch am y diwrnod. Am 20 diwrnod roeddwn i i fod yno, ond canslwyd yr awyren gan *British Airways* a'r un ar ei hôl hi, felly yn y diwedd, mi ddois i adre'n gynt na'r disgwyl.

Mae fy mab yn dal i weithio gartre ar wahân i ddau ddiwrnod yn y swyddfa – mae'n rhaid cadw at reol 6 person yno ar unrhyw un diwrnod. Mae'r bysiau bellach yn rhedeg (mae gwasanaeth bysys da iawn ym Bermiwda), ond dim ond 17 sy'n gallu bod ar y bws gyda'i gilydd. Felly, gallech chi fod mewn arosfan bws a'r gyrrwr yn eich pasio gan nad oes lle i fwy ar y bws. Dim ond un car sy'n cael ei ganiatáu i bob cartref – does dim rhyfedd bod y bysys yn brysur.

Mae gan yr ynys boblogaeth o 63,000 a does dim ond dwy brif ffordd – y ffordd ganol (sy'n gwneud yn union beth mae o'n ei ddweud), a ffordd y de yn Ne'r Ynys. Mae'r rhan fwyaf o'r ffyrdd fel ffyrdd bach y wlad o gwmpas Llandyrnog. Does dim llawer o arwyddbyst ac os nad ydech chi am landio mewn '*dead end*' neu stad o dai, mae'n rhaid i chi gael ffordd efo prif lythrennau. Felly byddai Maes Clwyd yn ddiwedd y daith, ond MAES CLWYD yn ffordd fyddai'n arwain at ffordd arall. Roedden nhw wrthi'n rhoi peipiau ar ryw ffordd roedden ni wedi bod arni'n gynharach. Y noson honno, mi syrthiodd car i mewn i'r twll a hwnnw'n dwll reit ddwfn. Lwcus nad oedd 'na neb wedi brifo. Y diwrnod wedyn, roedd y ffordd ar gau, ac roedd rhaid mynd rownd y wlad ar y gwyrriad.

Gallwch weld pa mor hardd ydi'r ynys o'r lluniau, ond mae'n rhaid i chi fod yno i werthfawrogi lle mor wahanol a hynod ydi Ynys Bermiwda. Mae un peth yn siŵr, fydd hi ddim yn hir cyn i mi fod dan bwysau'n trio pacio fy mag a pharatoi am y daith 7 awr (3000+ milltir) i brofi pa bethau eraill sydd i'w cael yma i'w mwynhau!

*Margaret Roberts*



*Tref St. George*

**Oriau agor Swyddfa'r Post**  
**Dyddiau Llun Mawrth, Iau, Gwener**  
**9am–12pm, 3pm–5pm**  
**Dyddiau Mercher, Sadwrn 9am–12.30**  
**01824 790310**



# Materion a drafodwyd yng nghyfarfod y Cyngor Cymuned, mis Medi

Cynhaliwyd y cyfarfod yn rhithwir gyda phob Cynghorydd yn bresennol, ynghyd ag aelod o'r cyhoedd.

Trafodwyd:

- ◆ Rhoi gwahoddiad i'r plismon cymunedol ymuno yn y cyfarfod rhithwir nesa i drafod sefyllfa Llandyrnog yn gyffredinol a chyflwyno unrhyw ystadegau ynghylch troseddau
- ◆ Mae'r clerc wedi cael sawl e-bost am gyflwr y gatiau ar draws y llwybr marchogaeth rhwng Bron Dyffryn a Moel Famau. Gobeithir cadw golwg ar y sefyllfa a chyflwyno adroddiad arni.
- ◆ Llwybr Troed 26 o Landyrnog i Bentrefelin - er bod Cyngor Sir Ddinbych wedi cael ei atgoffa sawl gwaith, mae'r camfeydd heb gael eu trwsio ac mae hyn yn siomedig.
- ◆ Cafwyd dau bris am garped newydd yn yr Ystafelloedd Coco a bydd y cyngor yn gofyn am bris arall.
- ◆ Y gobaith ydy y bydd Mr Lee yn dechrau peintio'r Ystafelloedd Coco ym mis Hydref
- ◆ Mae arwyddion ychwanegol wedi'u gosod yn Llangwyfan o gwmpas White House i ddangos y gwahaniaeth rhwng Llwybr 5 a Llwybr Tyrnog
- ◆ Mae'r bont droed dros Nant Simon ger yr Hen Reithordy wedi cael ei thrwsio
- ◆ Cafwyd cwyn am gyflwr rhan o'r ffens rhwng Gladstone Terrace a Chae Nant – ond does neb yn gwybod pwy sydd biau'r ffens
- ◆ Mae dellt (*trellis*) wedi'i ychwanegu at yr ardd pili-palod yng Nghae Nant a chafwyd cais i drefnu gosod plac i esbonio'r fenter
- ◆ Cafwyd cwyn am berchnogion anghyfrifol yn gadael i'w cŵn faeddu Cae Nant – efallai fod tynnu sylw at y mater ar gyfryngau

cymdeithasol wedi gwella ychydig ar y sefyllfa ychydig. Bydd y cyngor yn cadw golwg ar y sefyllfa ac yn ei thrafod â Chymdeithas Chwaraeon a Phêl-droed Llandyrnog sydd wedi'i heffeithio fwyaf gan yr ymddygiad anghyfrifol hwn.

- ◆ Cynllunio – mae tri chais wedi'u dosbarthu ymhlith yr aelodau rhwng y cyfarfodydd:
  1. Manylion camau'r datblygiad newydd o'r naill ochr i Faes Llan (18/2020/0634)
  2. Manylion edrychiad, tirlunio a gosodiad y datblygiad newydd o'r naill ochr i Faes Llan (18/2020/0594)
  3. Manylion porth ceir yn Fron Fanadl (18/2020/0607)
- ◆ Mynegwyd pryder nad oed neb yn y Swyddfa Bost tra'r oedd y perchnogion ar eu gwyliau, gan obeithio na fyddai diffyg cwsmeriaid yn effeithio ar benderfyniad ynghylch ei dyfodol. Y clerc i anfon llythyr at Wasanaethau Cwsmeriaid y Swyddfa Bost.
- ◆ Cafwyd cwynion am wasanaeth annibynadwy bysus – mae'r amserlen ar gael arlein ond nid pawb sy'n gallu cael gafael

**Ar ran holl dirfeddanwyr y fro:  
cofiwch gau gatiau ar eich  
holau pan fyddwch yn cerdded  
ar draws tir fferm.**

## Rhifau Ffôn Defnyddiol

Canolfan Gofal Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych  
— 01824 706101

Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan  
i oriau swyddfa — 0300 123 3068  
Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)  
Riportio baw cŵn 0800 2300 2345

## Digwyddiadau mis Hydref ar hyd y blynyddoedd:

- ◇ W.E. Gladstone wedi anfon y cerdyn post cyntaf yn 1870
- ◇ Etholwyd Keir Hardie yn aelod seneddol cyntaf y Blaid Lafur yn Nghymru, AS Merthyr Tudful, 1900
- ◇ Geni S4C yn 1980 oherwydd bygythiad Gwynfor Evans i ymprydio.
- ◇ Cyhoeddi cyfieithiad o'r Testament Newydd yn 1567
- ◇ Tanchwa Senghennydd – 439 wedi'u lladd, y ddamwain waethaf erioed ym Mhrydain 1913
- ◇ Rowland Ellis a'r Crynwyr wedi gadael am Bennsylvania, 1686
- ◇ Caerdydd wedi'i dyrchafu'n ddinas 1905
- ◇ Llongdrylliad y Royal Charter 1859 oddi ar greigiau Moelfre. 459 wedi marw.
- ◇ Cyfarfod cyntaf Bwrdd Croeso Cymru yn yr Amwythig, 1948
- ◇ Agor Banc Masnachol Cymru yng Nghaerdydd, 1972



Professional and personal  
Foot Care in the comfort  
and privacy of your own  
home.

Treatments Include:

- ↳ Corn/Callus Removal
- ↳ Diabetic Foot Care
- ↳ Nail Trimming
- ↳ Thickened Nails
- ↳ Athlete's Foot
- ↳ Fungal Nails
- ↳ Cracked Heels
- ↳ Ingrown Toe Nails
- ↳ Verrucae
- ↳ Foot Care Advice



Initial Assessment FREE

**01824 735070**

**07387 583971**

dyffrynfootcare@gmail.com

http://dyffrynfootcare.com

Facebook: Dyffrynfootcare

Twitter: @dyffrynfootcare

## Tambo's Total Care Garden Maintenance

**Gardening**

**Fencing**

**Tree Work**

**Turfing**

**Hedges**

**Logging**

**Pressure Washing**

**Contact Oli Williams**

**Mob: 07501022017**

**Email: ohwilliams75@gmail.com**



Baa Stool is a range of luxury  
British sheepskin furniture and  
home accessories with removable  
covers lovingly created in our  
workshop at The New Barn,  
13 Vale Park,  
Colomendy Industrial Estate,  
Denbigh LL16 5TA.

www.baastool.co.uk

**01824 790882**